# Rheolwr Cymunedol ac Effaith Gymdeithasol
# **Proffil y swydd**

**Yn atebol i:** Cyfarwyddwr Partneriaethau Gwerth Cymdeithasol

**Tîm:** Creu Dyfodol

**Yn Rheolwr Atebol ar gyfer:** Cydweithwyr Creu Dyfodol x5

**Cyflog:** Hyd at £41,030 y flwyddyn

## AMDANOM NI

Mae Creu Menter, rhan o Gymdeithas Tai Cartrefi Conwy, yn fenter gymdeithasol lwyddiannus, sy'n seiliedig yng Nghonwy, Gogledd Cymru.

Fel menter gymdeithasol, rydym yn gallu dangos gwerth cymdeithasol cryf gan ein bod yn buddsoddi ein helw yn ôl i'r cymunedau lle mae ein cartrefi.

**Ynglŷn â'r Swydd:**

Pwrpas y swydd hon yw gweithredu a darparu Strategaeth Effaith Gymdeithasol a chynllun gweithredu Conwy a sefydlu'r effaith gymdeithasol ar draws pob tîm yng Ngrŵp Cartrefi Conwy. Byddwch yn arwain a rheoli'r tîm Creu Dyfodol ac yn sicrhau fod DPA y tîm yn cael eu bodloni.

## FFOCWS A CHYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL

- Goruchwylio rhediad dydd i ddydd y tîm Creu Dyfodol gan sicrhau fod yr holl brosiectau a gwasanaethau yn bodloni anghenion tenantiaid Cartrefi Conwy a'r gymuned ehangach
- Rheoli a darparu amcanion allweddol y Strategaeth Effaith Gymdeithasol - Creu Tenantiaethau Cynaliadwy a Chreu Cyfleoedd i bobl ffynnu yn eu cymunedau gan ddarparu yn erbyn y targedau o fewn y gyllideb a dyddiadau cau
- Goruchwylio a rheoli twf Canolbwyntiau Cymunedol Cartrefi Conwy i ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau ar gyfer y gymuned
- Goruchwylio datblygiad a rheolaeth unrhyw brosiectau a ariennir gan grant, gan sicrhau fod canlyniadau cyrff dyrannu'n cael eu cyflawni a'u hadrodd
- Sicrhau rheolaeth atebol effeithiol o gydweithwyr Creu Dyfodol, gan gynnwys swyddi dros dro a ariennir gan grant.
- Cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Partneriaethau - Gwerth Cymdeithasol i gynllunio, peilota a gwerthuso prosiectau a gwasanaethau newydd

- Bod yn atebol am fodloni Dangosyddion Perfformiad Allweddol Creu Dyfodol fel y nodir yn flynyddol gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr, a datblygu dangosyddion perfformiad gweithredol ac unigol sy'n cyfrannu tuag at gyflawni amcanion Creu Menter. Sicrhau fod holl ddarpariaeth cefnogi yn cael ei adrodd a'i gofnodi'n gywir, gan amlygu'r llwyddiannau.

- Datblygu prosiectau a gwasanaethau newydd i'w darparu o fewn Creu Dyfodol mewn modd rhagweithiol ac ymgeisio am gyllid allanol lle bo hynny'n briodol.

- Datblygu cysylltiadau â phartneriaid, sefydliadau ac asiantaethau allanol i gynyddu cyfranogiad ac ymgysylltiad gwella bodlonrwydd tenantiaid.

- Cynyddu ymgysylltiad ystod eang o bobl i gael mynediad at brosiectau a gwasanaethau a ddarperir gan Greu Dyfodol.

- Datblygu cysylltiadau â chydweithwyr Cartrefi Conwy sy'n ymdrin â thenantiaid i godi ymwybyddiaeth am y strategaeth effaith gymdeithasol a sut gallai gefnogi cydweithwyr.

- Gweithio mewn partneriaeth, cynnwys a dylanwadu ar fudd-ddeiliaid allweddol i ddatblygu mentrau a chyfleoedd newydd.

- Helpu i gyflawni amcanion cyffredinol Creu Menter i ddarparu gwasanaeth ardderchog ac arloesol sydd wir yn canolbwyntio ar gwsmeriaid / tenantiaid.

# MANYLION AM YR UNIGOLYN

## ADDYSG A CHYMWYSTERAU

| | |
|---|---|
| **Hanfodol** | **Asesir drwy:** |
| Cymhwyster proffesiynol perthnasol neu'n gweithio tuag at ennill cymhwyster o'r fath (e.e. Rheoli, Hyfforddi a Mentora) neu brofiad cyfwerth | Ffurflen Gais |
| **Dymunol** | |
| Tystiolaeth o ddatblygiad personol parhaus | Ffurflen Gais |

## SGILIAU, GWYBODAETH A PHROFIAD

| | |
|---|---|
| **Hanfodol** | **Asesir drwy:** |
| Profiad o gyflwyno sesiynau hyfforddiant cyflogadwyedd | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Profiad o fewn y sector o fudd-dal i waith a chefnogi pobl sydd wedi bod yn ddi-waith ers peth amser i gael cyflogaeth gynaliadwy | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Trwydded yrru lawn a defnydd o gar* | Ardystiad |
| Sgiliau cyfathrebu ardderchog a'r gallu i hyfforddi, mentora ac ysgogi unigolion i oresgyn rhwystrau i weithio, gwirfoddoli neu gael hyfforddiant | Cyfweliad |
| Profiad o reoli gwirfoddolwyr neu weithwyr achlysurol di-dâl | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Profiad o weithio i ddangosyddion perfformiad allweddol a gweithredol a thargedau a'u bodloni | Cyfweliad / Cyflwyniad |
| Profiad o weithio mewn partneriaeth, cynnwys a dylanwadu ar fudd-ddeiliaid allweddol i ddatblygu mentrau a chyfleoedd newydd | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Parodrwydd i weithio mewn tîm, gan arddangos agwedd hyblyg, gan gynnwys bod yn barod i weithio y tu allan i oriau arferol yn achlysurol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |

| | |
|---|---|
| Dangos ymrwymiad cryf i gyrraedd nodau a chynnal gwerthoedd y Sefydliad a bod yn fodel rôl cadarnhaol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |

**Dymunol**

| | |
|---|---|
| Profiad o ysgrifennu, datblygu a chyflwyno ceisiadau | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Profiad o reoli contractau wedi'u hariannu gan grant | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Profiad a gwybodaeth o ddefnyddio offer Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) a chynhyrchu adroddiadau SROI | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Sgiliau Iaith Gymraeg (o leiaf Lefel 3) | Ffurflen Gais/Cyfweliad |

## GWERTHOEDD CRAIDD

| **Hanfodol** | **Asesir drwy:** |
|---|---|
| Gwneud y peth iawn | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Bod yn arloesol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Ymrwymo i ansawdd | Ffurflen Gais/Cyfweliad |

**Mae'n hanfodol bod yr holl ymgeiswyr yn gallu dangos eu gallu i fodloni ein gwerthoedd grŵp: Bod yn Arloesol, Ymrwymo i Ansawdd a Gwneud y Peth Iawn. Dylech egluro yn eich cyfweliad sut mae eich enghreifftiau yn bodloni'r gwerthoedd hyn.**